# Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn lansio ymgynghoriad newydd ar bwerau ymchwilio ychwanegol i’r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

**Mae gennych tan 6 Awst i ddweud eich dweud.**

Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar sicrhau pwerau ychwanegol cyfyngedig pellach i’r NFCU a fyddai’n caniatáu i swyddogion troseddau bwyd fod yn bresennol a chynorthwyo gyda chwiliadau’n gyfreithlon ar ôl i’r heddlu arestio’r troseddwyr.

Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd y llynedd ar sicrhau pwerau ymchwilio uwch i’r NFCU. Roedd yr ymatebion yn gefnogol ar y cyfan.

Mae’r ASB yn ceisio sicrhau pwerau cyfreithiol priodol pellach i’r NFCU sy’n hollbwysig os yw am ymchwilio i droseddau bwyd yn effeithiol ac yn annibynnol, gan fod yn llai dibynnol ar gymorth gan bartneriaid fel awdurdodau lleol a’r heddlu.

**Dywedodd Andrew Quinn, Pennaeth Dros Dro’r NFCU yn yr ASB:**

> “Rydym wedi lansio’r ymgynghoriad hwn gan ein bod am ddiogelu defnyddwyr a busnesau rhag twyll bwyd yn well. Byddai’r p?er ychwanegol hwn i chwilio a chael mynediad yn arf hanfodol er mwyn sicrhau y gellir symud ymchwiliadau yn eu blaen yn fwy uniongyrchol. Byddai hefyd yn rhyddhau gwasanaethau heddluoedd lleol fel y gallant dargedu eu hadnoddau hanfodol i flaenoriaethau eraill.?
>
> “Ar yr un pryd, bydd y pwerau mynediad a chwilio hyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynnil, gan ganolbwyntio ar reoleiddio effeithiol i atal a chanfod troseddau bwyd, ac yn amodol ar reolaethau cadarn a chraffu allanol. Rydym yn parhau i ymrwymo i ddefnyddio unrhyw bwerau ychwanegol mewn ffordd gymesur sy’n diogelu’r cyhoedd, gyda threfniadau diogelu a goruchwylio cryfach i ddiogelu rhag cam-ddefnyddio’r pwerau. Rydym yn annog pawb sydd eisiau dweud eu dweud i ymateb fel y gallant lywio ein gwaith yn y dyfodol.”

Ar hyn o bryd, mae’r NFCU yn dibynnu ar gytundeb partneriaeth gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu sy’n darparu cymorth fel mesur dros dro. Pe bai’r NFCU yn cael pwerau chwilio a mynediad o dan adran 18, mae’n debygol y byddai angen i swyddogion yr heddlu fod yn bresennol o hyd rhag ofn y byddai angen arestio troseddwyr, ond ni fyddai angen cymaint ohonynt. Mae pwerau ychwanegol yn ateb hirdymor mwy cynaliadwy a byddent yn cryfhau gallu’r NFCU i fynd i’r afael â thwyll bwyd a diogelu defnyddwyr.

Uned gorfodi’r gyfraith o fewn yr ASB yw NFCU sy’n mynd i’r afael ag achosion o droseddau difrifol, cyfundrefnol neu gymhleth sy’n ymwneud â bwyd. Ei rôl yw canfod, atal ac ymchwilio i dwyll difrifol a throseddu cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.??

Gwahoddir rhanddeiliaid yng Nghymru a Lloegr i ymateb i’r ymgynghoriad, a fydd yn para pedair wythnos. Mae deddfwriaeth ar wahân sy’n llywodraethu pwerau ymchwilio yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Mae’r ASB yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar gyfer Gogledd Iwerddon maes o law.

Nid yw’r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i’r Alban, lle mae Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban yn gyfrifol am ymateb i droseddau bwyd.

Mae’r ymgynghoriad ar gael ar wefan yr ASB, lle gallwch hefyd gael gwybodaeth am waith yr NFCU.